GADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago – Ffon- **07778511672**
Mai 2018 *Rhif 085*

'Rwy'n frawd i ti, a thithau'n frawd i minnau', meddai rhywun rywdro. Mi ydw i'n frawd i un brawd ac un chwaer, a fi yw'r hynaf ohonom ni'n tri – fi yw'r brawd mawr!

Tydi bod yn frawd mawr ddim yn fêl i gyd. Mae yna ddisgwyliadau – mai chi fydd yr un cyfrifol a doeth. A chyfrifoldebau hefyd – i ddylanwadu'n dda ar frodyr a chwiorydd eraill, i fod yn esiampl dda. Y gŵyn gyson ymhlith plant iau yw bod yr hynaf yn trin y ieuengaf fel ei was bach, neu'n manteisio ar ei safle. Mae'n berthynas sy'n dysgu cymaint i ni amdanom ni'n hunain.

Un o'r ffyrdd mae'r Beibl yn disgrifio Iesu yw fel ein brawd ni. Mae'n frawd ddaeth i'n byd yn ddyn o gig a gwaed. Gwnaeth hynny er mwyn 'cyflwyno aberth fyddai'n delio gyda phechodau pobl a dod â nhw i berthynas iawn gyda Duw' (Heb. 2:17). Dwedodd wrth ei ddisgyblion sawl tro am y farwolaeth oedd yn ei wynebu – ond dyma ddangos i ni faint mae ein brawd mawr yn ein caru, y gwerth mae'n gosod arnom.

Oherwydd iddo ddod mewn cnawd mae'n gwybod yn union sut beth yw bod yn ddyn. Mae'n gwybod am ein poen a'n anghenion, ein gwendidau a'n pechodau, ac eto'n ddibechod. Dyma un gallwn droi ato gan wybod y bydd yn ein derbyn ato'i hun, ac ni fydd yn gwrthod neb a ddaw.

DIOLCH O GALON i bawb fu'n rhan o gynnal yr ŵyl flodau dros gyfnod y Pasg. Roedd y gosodiadau a'r crefftau yn werth ei gweld. Llwyddwyd i godi dros £750 i Ymchwil Alzheimers.

DYDDIADUR

Oedfa'r Fro – Capel y Dyffryn, 13 Mai, 10 y.b. Croeso cynnes i bawb! Bydd Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa.

Cinio'r Fro – Cynhelir y cinio dydd Gwener, 11 Mai am 12.00 yn y Capel Mawr.

Cangen Genhadol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd Sasiwn Gwanwyn 2018, 2 Mai, Bethania, Rhuthun.

Te Mefus a Chrefftau, Neuadd y Pentref Trefnant, Sadwrn, 9 Mehefin, am 2 y.p. Elw at Ymchwil Canor Cymru.

Astudiaeth Feiblaidd, Festri Capel Trefnant, 1.30 y.p. bob dydd Mercher. Croeso cynnes i bawb.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Mai 13eg – 10.00
Oedfa'r Fro - Capel y Dyffryn
Dydd Llun, Mai 11eg
Cinio Cynnil yn y Festri o 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Mai 27ain
9.45 – Parch Andras Iago
Rydym yn meddwl am y rhai nad ydynt yn mwynhau iechyd gorau ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

BRWCWS
Dydd Sul, Mai 6ed
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun - Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Sul, Mai 13eg
Oedfa'r Fro - Capel y Dyffryn
Dydd Sul, Mai 20ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. R.O.Jones am 2.00
Dydd Sul, Mai 27ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Trefor Lewis am 2.00

Dymuniadau gorau i John Alwyn Jones, Brondyffryn yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Arrowe Park.

Diolch i Lis Edwards am ei gwaith arbennig gyda ei gosodiad o flodau ar y thema "Dameg yr Heuwr" yn yr Wyl Flodau.

Diolch i'r chwiorydd am eu cyfraniad o £65 at y Casgliad Cenhadol.

Y DYFFRYN

Dydd Sul, Mai 6ed am 9.45 yb
Anna Jane Evans
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb)
Emyn a darllen - Margaret/Brynle
Emyn a darllen plant - Penybryn
Organ - Iona
Blodau - Lis

Dydd Sul, Mai 13eg am 10yb
Oedfa'r Fro yn y Dyffryn
Organ - Ann
Blodau - Nyn

Dydd Sul, Mai 20fed am 11 yb
Parch Andras Iago - Gwasanaeth y Cymun
Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb)
Emyn a darllen - Rod
Emyn a darllen plant - Alys/Leah
Organ - Alaw
Blodau - Glenys

Dydd Sul, Mai 27ain am 9.45 yb
Parch R Glyn Jones
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb)
Emyn a darllen - Cemlyn
Organ - Lona
Blodau - Lona

Estynwyd llongyfarchiadau i Tecwyn a Gwyneth ar ddathlu eu Priodas Aur dros gyfnod a Pasg, ac hefyd i Margaret, Awel y Foel ar benblwydd arbennig.
Yn ystod mis Ebrill, llawenydd oedd cael bedyddio Leusa Jên, merch fach Sion a Gwenan Williams a hefyd eu croesawu hwythau

yn gyflawn aelodau ynghyd â Mati Nel atom ni yn y Dyffryn.
Cafwyd Gwasanaeth bendithiol iawn dan arweiniad y Parch Andras Iago.
Dymunwn yn dda i blant yr Eglwys fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

GELLIFOR

Dydd Sul, Mai 6ed
9.45 - Trefniant Ni
Llywydd – Glen
Geasanaeth Dechreuol – Ruth
Offeryn – Alaw
Blodau – Alaw

Dydd Sul, Mai 13
10.00 - Oedfa'r Fro – Capel y Dyffryn

Dydd Sul, Mai 20
9.45 – Gweinidog (Cymun)
Llywydd - Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Tirion
Offeryn – Margaret
Blodau – Sarah

Dydd Sul, Mai 27
11.00 – Parch Richard G. Jones
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Breian
Offeryn – Nia
Blodau - Sarah

Y FRON

Llywydd y Mis – Mrs Wendy Lloyd Jones

Dydd Sul, Mai 6ed
11.00 – Fron - Bugail – Oedfa Gymun
5.30 – Capel Mawr - Bugail

Dydd Sul, Mai 13eg
10.00 Oedfa'r Fro yn y Dyffryn

Dydd Sul, Mai 20fed
10.00 – Capel Mawr – Parch. R. O. Jones, Gaerwen
5.30 – Fron - Parch. R. O. Jones

Dydd Sul, Mai 27ain
10.00 – Fron – Parch. Trefor Lewis
5.30 – Capel Mawr - Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn

Blodau – yn gyfrifol – Dilys
6ed – Mr Bryn Jones
13eg –
20fed – Fron Heulog
27ain – Mrs Beti Jones

Llestri'r Cymun – Wendy Lloyd Jones a Nancy Brierley

Croesawu
6ed – John Howatson
13eg
20fed – Aelwyn Lloyd
27ain – Richard Snelson

Nos Fercher Mai 16eg bydd Chwiorydd y Fron a'r Brwcws yn ymweld a Lleiandy a Gerddi yn Penmaenmawr. Mwy o fanylion i ddilyn.

Yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Anwen Williams, Carrog a Mrs Megan Williams, Groeswen, y ddwy wedi treulio amser yn Ysbyty Glan Clwyd ac hefyd bu rhaid i Mr John Howatson fynd i'r Ysbyty ar frys a chael profion ac mae Mr Richard Snelson wedi cael triniaeth ar ei law. Y mae rhai o'n haelodau wedi cyfarfod a phrofedigaeth yn ddiweddar ac yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda'r Parch Eifion Jones, Mrs Anwen Williams, Mrs Megan Williams yn eich colled a phawb sydd wedi colli rhywun oedd yn annwyl ganddynt.

Y CAPEL MAWR A SEION

** DALIER SYLW

Pan fo'r Gweinidog gyda ni yn Y Capel Mawr neu'r Fron bydd yr oedfa am 11am

Dydd Sul, Mai 6

11am – Y Fron – Bugail - gweinyddir y Cymun 5.30pm – Y Capel Mawr – Bugail

Mai 13 - 20 – Wythnos Cymorth Cristnogol

Dydd Sul, Mai 13

10am – Oedfa'r Fro yn Y Dyffryn, Llandyrnog

5.30pm – Trefniadau i'w cadarnhau

Dydd Llun, Mai 14 -1.30pm –

Cyfarfod Gweddi

Dydd Sul, Mai 20

10am – Y Capel Mawr - Y Parch R.O. Jones, Gaerwen

5.30pm – Y Fron - Y Parch. R. O. Jones, Gaerwen

Dydd Mawrth, Mai 22

Yr Aelwyd am 1.30pm

Dydd Sul, Mai 27

10am – Y Fron - Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn

5.30pm – Y Capel Mawr - Parch. Trefor Lewis

Llywydd Y Mis: – Mrs Angharad Rhys

Casglyddion:-
Mrs Ann Jones
Mrs Mair Jones

Wrth y Drws:-
Mr Eric Howells

Organydd/ Cyfeilydd:-
Mai 6 - Mrs Catrin Warren
Mai 20 – Mrs Dorothy Rogers
Mai 27 – Mrs Catrin Warren

Blodau:-
Mai 20 - Mrs Nerys Owen, Llanelwy, er cof am Mr a Mrs H. D. Hughes

LLETY'R PREGETHWYR
Mai 20 – Y Capel Mawr
Mai 27 – Y Fron

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mr Eirwyn Edwards, Blaenau, Nantglyn, a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli'i frawd.
Hefyd Mr Steffan Jones, Llwyn y Gôg, a'r teulu, yn ei brofedigaeth o golli'i daid.
Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL - MAI 13 – 20
Dyna ydyw dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.
Byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer y casgliad o dŷ i dŷ, ac yr ydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth hyn yn y gorffennol. Mwy o fanylion i ddilyn.

Yr Aelwyd

Dechreuwyd Cyfarfod mis Mawrth gan Rhiannon Wynne, darllenodd ddwy emyn addas iawn.

Cyflwynwyd y siaradwr gwadd gan Helena Williams. Mae Phylip Hughes yn gyn-aelod o Capel Mawr ac yn actor cyfarwydd iawn ar S4C. Roedd wedi dod i siarad am y ffoaduriaid, ac fel yr aeth i wirfoddoli yn y Jyngl yn Calais gan ddysgu Saesneg iddynt yn bennaf. Roedd wedi penderfynnu gwirfoddoli i elusen flynyddoedd yn ol wedi iddo deimlo cywilydd wedi gweld ei wyres yn rhoi ei hamser i helpu rhai mewn angen.

Cawsom hanes a gweld lluniau o'r Jyngl ac fel yr oedd y ffoaduriaid wedi gwneud eu cabanau, Roedd yr Eglwys godwyd gan Gristnogion o Eritrea yn anhygoel. Peth arall barodd syndod oedd y gwirfoddolwyr o bob cefndir, rhai yn fyfyrwyr ac hyd yn oed fargyfreithiwr o Lundain yn rhoi eu hamser sbar i helpu'r trueiniaid hyn. Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn ac yn agoriad llygad i ni i gyd.

Diolchwyd i Phylip Hughes gan Mair, a diolch i Gwilym Luke Jones am ddod atom un waith eto i helpu gyda'r Powerpoint. Diolch hefyd i Carys Jones a Helena Williams am y paned.

Dorothy Rogers ddechreuodd cyfarfod mis Ebrill drwy ddarllen gweddi Gareth Maelor i'r Gwanwyn oedd yn addas iawn. Alun Williams Trefnant oedd wedi dod atom y tro hyn a chroesawyd ef gan y llywydd. Roedd wedi dod i siarad a dangos lluniau gymerodd o'r byd natur yn Zambia tra roedd yna ar ei wyliau ychydig yn ol. Cawsom brynhawn difyr iawn eto a mwynhawyd y lluniau anhygoel a hanes y wlad gawsom. Roedd adar fel y troellwr, aderyn y bwn, ciconia glas y dorlan a llawer arall yno, ond rhywogaethau gwahanol i'r adar hynny yn y wlad hon. Hefyd gymaint o anifeiliaid fel yr impala, eliffantod, llewod, zebra ac eraill.

Diolchwyd iddo gan Tom Williams, a braf oedd ei weld yn ol ar ol ei driniaeth. Buom yn meddwl amdano, ac anfonwn ein cofion at rai eraill o'r Capel sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

Diolch hefyd i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

Mis Mai
Mai 14: Cyfarfod Gweddi am 1.30
Mai 15: Yr Aelwyd yn cyfarfod i drefnu rhaglen y tymor nesaf

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Mai 6ed
9.45 Prion - Mr Celfyn Williams
Dydd Sul, Mai 13eg
10.00 Capel y Dyffryn - Oedfa'r Fro gyda'n Gweinidog
Dydd Sul, Mai 20fed
9.45 Pentre - Mrs Mair Penry Jones
Dydd Sul Mai 27ain
11.00 Pentre - Gweinidog

COFION a'n dymuniadau gorau i Mrs Glenys Jones sydd wedi symud i fyw at Dylan a Iona yn Rhewl.

CYDYMDEIMLWN gyda Mrs Morfydd Evans sydd wedi colli ei brawd Esmor Evans o Ddinbych, oedd hefyd yn ewythr i Rhian Hafod y Bryn, ein cofion atoch fel teulu.

GWASANAETH DYDD GWEDDI BYD EANG
Ar ol ail drefnu o achos yr eira, ein diolch yn fawr i bawb gymerodd rhan yn y gwasanaeth yma â oedd wedi cael ei drefnu eleni gan ferched Swrinam. Cawsom gyfarfod bendithiol yn dysgu am fywyd a diwylliant merched y wlad, a'r wers am ail-gylchu. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y plant, bobol ifanc a'r mamau i'r gwasanaeth, roedd pawb wedi mwynhau yr eitemau cerddorol roeddech wedi ei recordio a'i gyflwyno ar y sgrîn trwy fodd power point.

Yn ystod y gwasanaeth, roedd yn bleser cael croesawu Mrs Gwenan Dodd yn gyflawn aelod yng Nghapel y Pentre, mae Gwenan wedi bod yn mynychu y gwasanaethu ers tro, a braf i'w cael ei chwmni atom.

Y PASG - Cawsom wasanaethau bendithiol dros y Pasg, diolch i bawb gyfrannodd mewn unrhyw ffordd, i Carol a Mona am y gosodiad effeithiol yng nghapel Mawr, i'r merched a wnaeth gwaith crefft, ac i'r merched fu'n gwarchod, a gofalu am y te pnawn Sul ac am y cacennau, 'rydym yn gwerthfawrogi'r cwbl.

BORE GOFFI - Sadwrn 5ed Mai, yn y Festri 10.30 – 12dydd, elw tuag at Cymorth Cristnogol a elusennau lleol,
Stondin Gacennau a raffl - Byddwn yn falch o gael cacennau cartre a cynnyrch ar gyfer y stondin os gwelwch yn dda
Tocynnau £1 yn cynnwys paned a bisgedi,

CÔR CYTGAN CLWYD - Ymddiheuriad fod Cyngerdd Cor Cytgan Clwyd wedi ei ohurio o achos y tywydd, ond wedi ei ail drefnu, ac edrychwn ymlaen i gael eich cwmni yn y Capel Nos Sul 29ain Ebrill am 7yh.

GLYN
Dydd Sul, Mai 20
2.00 - Parch Andras Iago

TREFNANT
Llywydd y Mis : EIFION WILLIAMS

Dydd Sul Mai 6ed
9.45 Gweinidog 11.15 YSO
3.30 Gweinidog
Blodau : Eileen Humphreys
Dydd Sul Mai 13eg

10.00 Y Parch Megan Williams 11.15 YSO
3.00 Y Parch Megan Williams
Blodau : Mary Evans

Dydd Sul Mai 20fed
10.00 Y Parch Pryderi Ll Jones 11.15 YSO
3.00 Y Parch Pryderi Ll Jones
Blodau : Hafina Thomas

Dydd Sul Mai 27ain
10.00 Y Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts
gyda phaned i ddilyn
3.00 Y Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts
Blodau : Margaret Peel

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Wedi cael tymor o gyfarfodydd prynhawniau Llun llwyddiannus dros ben, bydd y nodwyddau yn cael seibiant dros yr haf! Edrychwn ymlaen at ail-ddechrau tua chanol Mis Medi. Yn y cyfamser, hoffem ddiolch i'r merched am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd - maent yn cyflawni gwaith pwysig ym mywyd yr Eglwys. Yn ogystal a chyfle i addoli, gymdeithasu, sgwrsio a mwynhau paned, mae'r cynnyrch o fudd arbennig i bobl a phlant lleol a thramor. Diolch i chi am y llafur hwn a braf gweld cynifer o'r Eglwys a thu hwnt yn ymaelodi yn flynyddol. Mae'n gyfle i ni agor drysau'r Capel a chroesawu pawb sy'n dymuno cwmni ar brynhawn Llun - edrychwn ymlaen at fis Medi.

Bydd y criw yma ag eraill yn trefnu y Te Mefus a Chrefftau a drefnir yn Neuadd y Pentre, Trefnant, ar Ddydd Sadwrn Mehefin 9fed 2018 am 2.00 o'r gloch. Mae'r elw i gyd ,yn ol eu harfer bellach, yn mynd tuag at Ymchwil Cancr Cymru. Dewch i gefnogi.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Ar Nos Wener , Ebrill 27ain, trefnir ymweliad a'r Eglwys Wen, Dinbych, dan arweiniad yr hanesydd Gwyn Jones, Llannefydd. Croeso cynnes i bawb fel

arfer. Gobeithiwn hefyd y trefnir Taith Gerdded ar ein cyfer ym mis Mai gan Bryn , Pontruffydd ac y byddwn yn mwynhau bwyd gyda'n gilydd ar y ddwy noson. Croeso cynnes i bawb.

CYFARCHION i Betty Griffiths sydd wedi cyrraedd adref o'r Inffirmary erbyn hyn – cofion annwyl Betty - gofal piau hi. Trist clywed am ddamwain Beryl Roberts, Pen Isa'r Green, - torrodd ei garddwrn wedi syrthio yn Ninbych. Amynedd eto Beryl a phob dymuniad da. Cofion hefyd, at eraill sy'n dal yn methu'r oedfaon – gobeithio y gallwn eich croesawu yn ol yn fuan.

NEGES NESTA

Braint oedd cael helpu'r Chwiorydd i baratoi at yr Ŵyl Flodau ac Arddangosfa Grefftau'r Ofalaeth oedd eleni am y tro cyntaf yn y Capel Mawr. Cafwyd gosodiadau graenus ar thema Straeon y Beibl ymhob ffenestr a braf oedd gweld pileri'r galeri wedi eu defnyddio i grogi basgedi o flodau. Roedd llond gwlad o gynnyrch Crefft a wnaethpwyd gan aelodau a chefnogwyr. Cafwyd Gwasanaeth Bendithiol iawn Nos Iau Cablyd i gychwyn oedd wedi ei drefnu gan Carolyn Thomas gyda chwiorydd o bob capel yn cymryd rhan. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parch Andras Iago gyda chymorth y Barch Nesta Davies a phaned ar y diwedd.

Y CROESHOELIAD Y Ffenestr Goffa

MOSES YN YR HESG

GARDD Eden



Y bum wraig ddoeth a ffol

Arch Noa

Joseff a'i gôt Amryliw

Dameg yr Heuwr

Aethpwyd â'r cynnyrch crefft i gartrefi Gofal ac Ysbytai'r Fro a Chanolfan Ddydd Waengoleugoed, Cafoddd Dolwen a Phlas Eleri Fenyg-Gof wedi eu gwau ac octopws wedi ei grosio, Adran Gofal Babanod cynnar-anedig Ysbyty Glan Clwyd SCBU Gapiau a Chotiau bychain, Blancedi Cot a Chwiltiau Clytwaith, Plas Llanrhaedr ag Inffyrmari Dinbych Gwiltiau Clytwaith a Menyg Gof ac Octopws ac aeth y Festiau *ChipShop Baby and Caps* i fabis

yn yr Affrig drwy Ganolfan yn y Rhyl . Cadwyd llawer o'r Capiau a Bandiau Gwallt a'r Menyg di-fodiau i'w rhoi yn y Bocsus Nadolig ac os bydd eich capel yn ymgymeryd â'r cynllun dowch i gysylltiad i gael rhai. Roedd Elw'r Arddangosfa'n mynd at Gymdeithas Alzheimer's Cymru.

Mawr yw ein diolch i BAWB wnaeth yr Ŵyl yn llwyddianmus, gan baratoi eitemau Crefft ac arddangosfeydd blodau.

Fore Sul, Ebrill 1af, fe arewinwyd Gwasanaeth CYTUN ger y Castell gan y Barch Nesta Davies.

Staff yr Inffyrmari yn derbyn nwyddau

Trigolion yn cynnwys Gwyneth Morris a Staff Dolwen yn derbyn nwyddau.

Staff Cartref Plas Llanrhaeadr yn derbyn Cynnyrch ar gyfer llawer o Gymry sydd yn cymmo'n Fisol dan law Nesta

Bu'r Tim Agor y Llyfr yn cyflwyno Storiau am Pedr yn dathlu ei ddiwrnod Hapusaf wedi 'r Pasg, a chafwyd gwrandawiad arbennig gan y ddwy ysgol a daeth Helen Pierce a Dylan Roberts i'n cynorthwyo. Llawer o ddiolch iddynt.
Cewch fendith di-ben-draw.

Nesta

Newyddion rhifyn Mai o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Mai 18
e-bost :
meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417